# Fframwaith Rhifedd

## Blwyddyn 2

### Adnabod prosesau a chysylltiadau

- trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth
- adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio
- dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol
- dewis cyfarpar ac adnoddau priodol
- defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif

### Adolygu

- defnyddio strategaethau gwirio syml i benderfynu a yw atebion yn rhesymol
- dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol
- dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau syml a dod i gasgliadau priodol

### Cynrychioli a chyfathrebu

- defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain
- cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac ysgrifen, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd
- dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau rhifedd)...

- cyfrif setiau o wrthrychau drwy eu rhoi mewn grwpiau o 2, 5 neu 10
- darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100
- cymharu a rhoi rhifau 2 ddigid mewn trefn
- galw i gof ffeithiau rhif hyd at 10, er mwyn deillio ffeithiau eraill, h.y.: dyblu a haneru (e.e. 40 + 40) bondiau o 10 (e.e. 60 + 40)
- galw i gof tabl 2, 5 a 10 a'u defnyddio i gyfrifo problemau syml
- canfod haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol
- canfod gwahaniaethau bach o fewn 20 drwy ddefnyddio strategaethau 'cyfrif ymlaen'
- galw i gof ffeithiau rhif hyd at 10 a gwerth lle i adio a thynnu rhifau mwy (e.e. 24 + 4, 30 + 5, 34 +10)
- defnyddio strategaethau gwirio: adio eto mewn trefn wahanol defnyddio haneru a dyblu o fewn 20
- defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1
- canfod beth yw'r cyfanswm a rhoi newid o luosrifau 10c

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau mesur)...

- defnyddio unedau safonol i fesur: hyd, uchder a phellter: gan ddefnyddio metrau, hanner metrau neu gentimetrau pwysau (màs): defnyddio kilogramau neu bwysau 10 gram cynhwysedd: cymharu cynwysyddion drwy ganfod faint y gellir eu cynnwys ynddynt; cyflwyno'r litr
- dehongli 'hanner awr wedi' 'chwarter wedi' a 'chwarter i' ar gloc analog
- darllen oriau a munudau ar gloc digidol 12-awr
- dangos synnwyr datblygol o hyd tasgau a digwyddiadau beunyddiol
- cymharu'r tymheredd dyddiol drwy ddefnyddio thermomedr syml (°C)

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau data)...

- casglu a chofnodi data o: restrau a thablau syml diagramau graffiau bloc pictogramau lle bo'r symbol yn cynrychioli un uned
- echdynnu a dehongli gwybodaeth o restrau, tablau, diagramau a graffiau.

